Prifysgol De Cymru

University of South Wales

Arweiniad i staff ynglŷn â Chrefydd a Chred mewn perthynas â dysgu ac addysgu

Mae'r brifysgol yn dymuno rhoi'r cyfle gorau posibl i bob myfyriwr sicrhau ei botenshial academaidd, ac fel canlyniad, fe wnawn ymdrechu i fod mor hyblyg ag sy'n ymarferol bosibl i gyfarfod ag anghenion myfyrwyr mewn perthynas â chydnabod credoau crefyddol. Gyda hyn mewn golwg, dylai staff hysbysu myfyrwyr mewn sesiynnau rhagarweiniol bod angen iddynt gael gwybod yn ddiymdroi am unrhyw gonsyrn neu anghenion sy ganddynt parthed eu cred neu grefydd.

Calendr Acadameiadd

Mae calendar academaidd, taflen amser a dyddiau cau y Brifysgol wedi cael eu seilio ar gyfundrefn gwyliau cyhoeddus Cymru a'r sector. Fel canlyniad mae hi'n angenrheidiol i ni, os am gyflwyno ein rhaglenni a'n cyrsiau yn y dull mwyaf effeithiol posibl, gynnal y gweithgareddau dysgu ac addysgu yn sytod yr wythnos waith (dydd Llun i Ddydd Gwener). Bydd Prifysgol De Cymru yn arwain ac yn cynghori staff sy'n ymwneud â'r calendr academaidd a'r daflen amser er mwyn cefnogi cynwysoldeb mewn perthynas â chred a chrefydd.

Gweithgareddau Dysgu ac Addysgu

Tra'r ydym ni'n fodlon gwneud pob ymdrech i gefnogi myfyrwyr i gyflawni anghenion eu cred neu grefydd, fe ddisgwylir i fyfyrwyr, lle mae hynny'n bosibl, i weddio cyn neu ar ôl darlithoedd.

Dylai staff ym Mhrifysgol De Cymru gynnig arweiniad a chefnogaeth yn gyfrinachol i fyfyrwyr mewn perthynas â chrefydd a chred. Pan mae myfyrwyr yn absennol oherwydd gweithgareddau crefyddol dylai staff sicrhau fod taflenni a ddosberthir ganddynt, ar gael, neu yn cael eu postio ar Blackboard. Dylai myfyrwyr sy wedi colli cyfleoedd i ddysgu neu addysgu, oherwydd eu bod wedi bod yn cymryd rhan mewn gweddiau neu weithgareddau crefyddol, ymdrechu i wneud iawn am yr amser a gollwyd drwy wneud eu gorau i ddal i fyny gyda defnyddiau'r cwrs a'r tasgau a osodwyd. Dylai'r staff a'r myfyrwyr hyn drafod a chytuno ar fesurau addas er mwyn sicrhau parhad perfformiad academaidd tra'n galluogi'r myfywyr i ddilyn eu gweithgareddau crefyddol.

Dylid hysbysu myfyrwyr nad oes modd defnyddio teyrngarwch i weithgareddau crefyddol fel ffordd o gyfiawnhau cyflwyno gwaith i mewn yn hwyr, colli arholiadau neu ymestyn dyddiadau olaf gwaith cwrs.

Os yw myfyrwyr yn gofyn am ganiatad i adael eu hastudiaethau am gyfnod estynedig i gyflawni gweithgareddau crefyddol dylai staff egluro canlyniadau academaidd eu habsenodeb a hynny mewn perthynas â rheolau academaidd. Dywed rhain bydd angen efallai i'r brifysgol hysbysu asiantaethau fel y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, yr Awdurdod Addysg Lleol neu UKV1 os bydd myfyriwr yn absennol am gyfnod o amser.

Asesu

Mar Prifysgol De Cymru yn ymwybodol y gall rhai gwyliau crefyddol gydfynd â'r hyn sydd ar y Daflen Amser Academaidd. Fodd bynnag, oherwydd amrywiaeth gweithgareddau crefyddol nid yw'r brifysgol yn gallu trefnu ei hamserlen na newid dyddiadau cau gwaith cwrs o gwmpas gweithgareddau crefyddol pob ffydd.

Dylid hysbysu myfyrwyr bod angen iddynt lynu wrth ddyddiadau cau gwaith cwrs ar gyfer asesiadau gwaith cwrs. Os yw'r rhain yn cydfynd â gwyl grefyddol bwysig fe ddylai myfyrwyr roi eu gwaith i mewn cyn y dyddiad cau neu gysylltu â'u Zôn Cyngor neu Diwtor Cwrs i wneud trefniadau amgen a hynny ymhell o flaen y dyddiad cau.

Arholiadau

Fel rheol ni threfnir arholiadau ffurffiol Prifysgol De Cymru ar ddyddiau gwyliau cyhoeddus yng Nghymru a'r sector. Pan gynhelir arholiadau ffurffiol ar ddyddiau gwyliau crefyddol fe gynghorir myfyrwyr, fel rheol, i gyflawni eu gweithgaredd crefyddol cyn neu ar ôl yr arholiad o dan sylw. Mae cyfyngiadau amserlennu yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ad drefnu arholiadau. Os yw myfyriwr yn dewis dilyn gweithgaredd crefyddol yn hytrach na mynychu arholiad, cyfrifoldeb y myfyriwr yw hysbysu arweinydd y cwrs a'r Zôn Cyngor o hynny mewn da bryd. Mewn amgylchiadau o'r fath fe all staff gynnig asesiad amgen neu ofyn i'r myfyriwr eistedd arholiad yn ystod cyfnod aileistedd. Dylai staff, off bynnag, sicrhau fod myfyrwyr yn deall mai anaml iawn y caniateir ceisiadau o'r fath oherwydd cyfyngiadau amserlennu, llwythgwaith ychwanegol i staff a'r effaith ar fyfyrwyr eraill.

Ni chaniateir i fyfyrwyr adael ystafell arholiad yn ystod arholiadau i gyflawni gweithgareddau crefyddol oherwydd gall hyn darfu ar fyfyrwyr eraill sy'n eistedd eu harholiadau.

Dylai unrhyw gais i ddiosg gwisg grefyddol sy'n gorchuddio'r wyneb i ddilysu adnabyddiaeth o berson yn ystod cyfnod yr arholiadau gael ei wneud mewn modd sensitif a chymryd gofal i ddangos parch, cwrteisi ac urddas. Dylai aelod staff o'r un rhyw ofyn i'r unigolyn ddangos ei wyneb mewn lle sy mor breifat â phosibl, er mwyn dilysu adnabyddiaeth.

Lleoliadau Gwaith ac Ymarfer Clinigol

Dylid cynghori myfyrwyr prifysgol sy'n mynd ar brofiad gwaith neu ymarfer clinigol fel rhan o'u cwrs academaidd, i ystyried o flaen llaw ofynion gwisg broffesiynol yr alwedigaeth y mae nhw am ei dilyn. Fe all ystyriaethau Iechyd a Diogelwch, darpariaeth gofal a rhyngweithio â'r cyhoedd gyfyngu rhywfaint ar eu gallu i wisgo dillad crefyddol. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr gysylltu â'u Cyfarwyddwr Cwrs neu Diwtor cyn cychwyn yn eu lleoliad neu eu hymarfer i drafod pa mor hyblyg yw'r sefyllfa neu a oes modd addasu'r wisg i gydymffurfio â chredoau crefyddol y myfyrwyr.

Mae gan Iechyd a phroffesiynau tebyg, gôd moesegol sy'n dweud yn glir bod angen i staff a myfyrwyr ,sy ar leoliad gwaith neu ymarfer, weithio gyda, a gofalu am, amrywiaeth o unigolion gan gynnwys dynion, merched, pobl hŷn, lesbiaid, hoywon, deurywiolion a phobl trawsrywiol. Dylid hysbysu myfyrwyr ei bod yn angenrheidiol iddyn nhw gydymffurfio â gofynion y côd moesegol hwn sy'n golygu na ellir defnyddio credo crefyddol fel rheswm dros wrthod gweithio â chlaf arbennig neu grwp o gleientiau.

Gwybodaeth Bellach a Chyngor

Os am fwy o wybodaeth a chyngor cysylltwch â Michelle Romaniw, Pennaeth Gwasanaethau Caplaniaeth, ffôn. 01443 654060